Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(148)v3

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**2 Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)**

Gweld y cwestiynau

**3 Cwestiynau i’r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**4 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i Ddeddfu a’r Eglwys yng Nghymru (60 munud)**

NDM5295 David Melding (Canol De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ei ymchwiliad i Ddeddfu a’r Eglwys yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2013.

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**5 Cynnig i gymeradwyo Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad (60 munud)**

NDM5297 Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â pharagraff 8(11)(d) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

Yn cymeradwyo Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Gorffennaf 2013.

**Dogfennau ategol:**
Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad
Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**6 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

NDM5298 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi gyda phryder bod 48.9% o ddisgyblion Cymru yn gadael yr ysgol heb 5 TGAU A*-C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg.

2. Yn nodi gyda phryder bod y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndir difreintiedig a mwy breintiedig yn tyfu drwy'r cyfnodau allweddol, gan gyrraedd 33% yng Nghyfnod Allweddol 4.

3. Yn credu y dylid ailwerthuso polisïau i fynd i'r afael â lleoedd dros ben i gynorthwyo safonau uchel fel blaenoriaeth.

4. Yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod disgyblion yn gadael yr ysgol gyda chymwysterau perthnasol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu sefydlu Cymwysterau Cymru yn sefydliad annibynnol i reoleiddio cymwysterau yn y lle cyntaf.

5. Yn cydnabod pwysigrwydd cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndir difreintiedig a disgyblion o gefndir mwy breintiedig ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y grant amddifadedd disgyblion yn cael ei ddyrannu i bolisïau sy'n mynd i'r afael â hyn.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno ei chynigion cynhwysfawr i weithredu'r argymhellion yn adroddiad Hill.

7. Yn croesawu cytundeb Plaid Cymru gyda Llywodraeth Cymru i greu 5,650 o gyfleoedd prentisiaeth ychwanegol, gan roi cyfleoedd gwerthfawr i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau a chael gwaith.

Gellir gweld Adroddiad Hill drwy'r linc a ganlyn:

[http://cymru.gov.uk/docs/dcells/consultation/130618-delivery-of-education-report-cy.pdf](http://cymru.gov.uk/docs/dcells/consultation/130618-delivery-of-education-report-cy.pdf)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt un:

'ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag Estyn er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn mabwysiadu rhaglen monitro disgyblion unigol, i fesur cynnydd disgyblion a chefnogi ysgolion i dargedu ymdrechion at y disgyblion hynny nad ydynt yn cyflawni eu potensial yn llawn.'

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi gyda phryder y diffyg cysondeb rhwng Ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol ar wella a rheoli'r broses bontio rhwng ysgol gynradd ac ysgol uwchradd yn gadarnhaol.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 4:

', ac i gyhoeddi strategaeth gyfathrebu i hyrwyddo cymwysterau sy'n unigryw i Gymru ymysg darpar gyflogwyr a sefydliadau addysg.'

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 6 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu cytundeb Democratiaid Rhyddfrydol Cymru gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu'r Grant Amddifadedd Disgyblion, sydd wedi rhoi £32.4 miliwn o nawdd i ysgolion yn 2012-13 a £36.3 miliwn yn 2013-14, i helpu i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau y bydd cyllid ar gael yn y dyfodol.

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 7 a rhoi yn ei le:

Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu 5,650 o gyfleoedd prentisiaeth ychwanegol, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) monitro'r gwaith o greu'r prentisiaethau ychwanegol hyn; a

b) sicrhau bod y sgiliau a geir ar y prentisiaethau hyn yn cyfateb i anghenion y farchnad waith.

**7 Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.44 (60 munud)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl ac fe'u trafodir yn ôl y grwpiau a ganlyn:

**1. Y Panel**
34, 63, 16, 64, 17, 18, 65, 66, 67, 27, 28, 68, 29, 32, 33, 69

**2. Gorchmynion cyflogau amaethyddol**
4, 5, 19, 6, 50, 7, 20, 8, 9, 46, 10, 21, 22, 2, 1, 11A, 11, 12, 23, 13, 15

**3. Gorfodi a throseddau**

51, 52, 53, 54, 35, 57, 30

**4. Yr hawl i wyliau a gorfodi'r hawl hwnnw**
47, 48, 56, 49

**5. Gwybodaeth a chofnodion**
58, 59, 60, 36

**6. Adolugu'r Ddeddf a'i chyfnod para**
37, 38, 39, 40, 24, 41, 42, 43

**7. Gorchmynion a Rheoliadau**
3, 25, 31, 26, 14

**8. Diffiniadau o amaethyddiaeth a gweithiwr amaethyddol**
44, 45, 61

**9. Cyfyngiadau ar y Panel a Gweinidogion Cymru**
62

**Dogfennau ategol:**
Bil Sector Amaethyddol (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o Welliannau Wedi'u Didoli
Grwpio Gwelliannau

**8 Cynnig Cyfnod 4 i gymeradwyo Bil Sector Amaethyddol (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.47 (5 munud)**

Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.  Os derbynnir y cynnig:

Cynnig Cyfnod 4 i gymeradwyo Bil Sector Amaethyddol (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.47

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 24 Medi 2013

# Cwestiynau llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 10 Gorffennaf 2013 i'w hateb ar 17 Gorffennaf 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. Julie James (Gorllewin Abertawe): Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud tuag at wella'r strwythur gyrfa i weithwyr gofal? OAQ(4)0312(HSS)

2. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith amlasiantaeth i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed? OAQ(4)0324(HSS)

3. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn 2013 i fynd i'r afael â diabetes yng Nghymru? OAQ(4)0308(HSS)

4. Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog pobl i roi'r gorau i smygu? OAQ(4)0323(HSS)

5. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod yr holl leoedd sydd ar gael ar Gynghorau Iechyd Cymuned yn cael eu llenwi? OAQ(4)0318(HSS)

6. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gofal iechyd yn Sir Drefaldwyn? OAQ(4)0317(HSS)

7. Mick Antoniw (Pontypridd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trefniadau presennol ar gyfer hyfforddi staff ambiwlans yng Nghymru? OAQ(4)0314(HSS)

8. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael i bobl â chlefyd Crohn a Cholitis? OAQ(4)0311(HSS)

9. Ann Jones (Dyffryn Clwyd): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o gydraddoldeb mynediad at wasanaethau iechyd a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0310(HSS)

10. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Pa brotocolau y mae byrddau iechyd yn eu gweithredu i sicrhau bod pobl â diabetes yn cael gofal priodol yn yr ysbyty? OAQ(4)0322(HSS)

11. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am lefel y mabwysiadu yng Nghymru? OAQ(4)0309(HSS)

12. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru o ran asesu ceisiadau cyllido cleifion unigol? OAQ(4)0321(HSS)

13. David Rees (Aberafan): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i gynorthwyo nyrsio cymunedol? OAQ(4)0320(HSS)

14. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y goblygiadau i Gymru yn sgîl Adolygiad Cavendish? OAQ(4)0316(HSS)

15. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd? OAQ(4)0315(HSS)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Pa gyngor y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi ei ddarparu i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ynglŷn â chymhwysedd deddfwriaethol y Bil Sector Amaethyddol (Cymru)? OAQ(4)0050(CG)W

**2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cael gyda swyddogion y gyfraith mewn mannau eraill ynglŷn â chymhwysedd deddfwriaethol Biliau Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0049(CG)W

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

**1. Gwyn Price (Islwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith contractau dim oriau ar safonau byw yng Nghymru? OAQ(4)0068(CTP)

**2. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau tlodi yn Sir Gâr? OAQ(4)0065(CTP)

**3. Julie James (Gorllewin Abertawe)**: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i rymuso Undebau Credyd i'w galluogi hwy i ddarparu amrywiaeth lawn o wasanaethau? OAQ(4)0058(CTP)

**4. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael yng Nghymru i bobl sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid? OAQ(4)0060(CTP)

**5. Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dlodi trafnidiaeth yng Nghymru wledig? OAQ(4)0059(CTP)

**6. Christine Chapman (Cwm Cynon)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0063(CTP)

**7. Alun Ffred Jones (Arfon)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y targedau ar gyfer trechu tlodi y mae Llywodraeth Cymru wedi eu pennu? OAQ(4)0064(CTP)

**8. Nick Ramsay (Mynwy):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem o ddyledion personol yng Nghymru? OAQ(4)0062(CTP)

**9. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i oresgyn rhwystrau i gydraddoldeb? OAQ(4)0057(CTP)

**10. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o argaeledd gofal plant fforddiadwy i rieni sy'n gweithio? OAQ(4)0061(CTP)

**11. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i liniaru effeithiau benthyciadau diwrnod cyflog? OAQ(4)0069(CTP)

**12. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mesur ei llwyddiant o ran trechu tlodi? OAQ(4)0067(CTP)

**13. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â lleihau budd-daliadau nas hawliwyd yng Nghymru? OAQ(4)0066(CTP)

**14. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru yn ardal Abertawe? OAQ(4)0056(CTP)

**15. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i undebau credyd? OAQ(4)0055(CTP)